

# Polisi Manyleb Diogelwch Gwybodaeth (Lefel Systemau)



Rhif y Fersiwn:	2.0
Dogfen Statws:	Cymeradwywyd
Dyddiad Cymeradwyo:	19 Ebrill 2018
Cymeradwywyd Gan:	Grŵp Goruchwyllo Rheoli Data a Gwybodaeth
Dyddiad Dod i Rym:	19 Ebrill 2018
Dyddiad yr Adolygiad Nesaf:	Mawrth 2020

## 1 Diben

Diben y polisi hwn yw sicrhau bod cyfrifoldeb am y mesurau rheoli diogelwch sy'n berthnasol i systemau gwybodaeth unigolyn sy'n dal Gwybodaeth Gyfrinachol y Brifysgol, neu setiau data Heb fod yn Gyfrinachol sy'n hanfodol i swyddogaethau'r Brifysgol, sydd wedi'u ddyrannu'n benodol a bod y mesurau rheoli hynny wedi cael eu hystyried yn briodol, eu dogfennu yn briodol ar Fanyleb ac wedi'u cymeradwywyd a'u hadolygu, a bod Manylebau o'r fath yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

## 2 Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn cwmpasu'r holl systemau gwybodaeth sy'n dal Gwybodaeth Gyfrinachol y Brifysgol (e.e. System Rheoli Gwybodaeth Myfyrwyr, Adnoddau Dynol Craidd, Rhwydwaith TG, e-bost y Brifysgol a'r system post mewnol). Mae'n cwmpasu systemau ffeilio papur ac electronig lle maent yn perthyn i'r cwmpas uchod. (Am ragor o fanylion gweler y Diffiniadau yn adran 8 isod).

## 3 Cysylltiad â pholisiau presennol

Mae'r polisi hwn yn rhan o'r Fframwaith Rheoli Diogelwch Gwybodaeth. Dylid ei ddarllen mewn cysylltiad â'r Polisi Diogelu Gwybodaeth a'r holl bolisiau eraill ategol.

## 4 Datganiad Polisi

Cyfrifoldeb yr unigolion a enwir fydd y mesurau rheoli diogelwch ar gyfer yr holl systemau sy'n dal Gwybodaeth Gyfrinachol y Brifysgol neu setiau data critigol Heb fod yn Gyfrinachol. Rhaid

iddynt gael eu dogfennu, eu cymeradwyo a'u hadolygu'n rheolaidd, gan ddilyn dull sy'n asesu risg er mwyn sicrhau bod cyfrinachedd, uniondeb ac argaeledd y wybodaeth honno'n cael ei rheoli'n briodol ar ran y Brifysgol.

## 5 Polisiau

5.1 Yr Uwch-berchennog System (Technegol) ar gyfer yr holl systemau TG sy'n dal gwybodaeth Gyfrinachol y Brifysgol neu setiau data critigol Heb Fod yn Gyfrinachol bydd y Prif Swyddog Gwybodaeth.

5.2 Bydd yr holl systemau o'r fath hefyd ag Uwch-berchennog System (Busnes) a Manyleb Diogelwch Gwybodaeth a ddogfennwyd. Manyleb diogelwch gwybodaeth yn nodi y System perchennog (busnes) a pherchennog y System (technegol) ac yn cynnwys disgrifiad o'r:

- Sut y penderfynir pa ddefnyddwyr a gweinyddwyr fydd yn cael eu hawdurdodi i gael mynediad at y system, pwy sy'n awdurdodi mynediad cychwynnol, pwy sy'n pennu'r lefel briodol o fynediad ac unrhyw rhagofynion o ran hyfforddiant neu fetio gofynnol
- Sut mae hunaniaethau defnyddwyr awdurdodedig yn cael eu gwirio wrth gael mynediad at y system (gan gynnwys unrhyw bolisi cyfrinair perthnasol) ac a fydd unrhyw ddull mynediad (e.e. oddi ar y campws, mynediad o bell, dyfais bersonol) yn cael ei wahardd, ac os felly, sut y caiff hyn ei gyflawni
- Y lefelau o ddiogelwch o fewn y system mewn perthynas â'r mathau defnyddiwr a gweinyddwr, dosbarthiad y wybodaeth y mae ganddynt fynediad ati a'r math o mynediad (darllen/ysgrifennu/golygu/ac ati)
- Unrhyw mesurau rheoli technolegol/gwioneddol i atal symud neu gopio data o'r system
- Sut bydd y system yn cael ei chadw wrth gefn gan gynnwys amllder a chyfrifoldeb
- Beth yw'r defnyddiau a ganiateir o wybodaeth yn y system a sut mae hyn yn cael ei gyfleu i ddefnyddwyr/gweinyddwyr (ac unrhyw gwrthrychau data o ran hysbysiadau diogelu data lle bo'n berthnasol)
- Pa systemau eraill fydd yn bwydo data i'r system hon
- Pa systemau eraill fydd yn derbyn data o'r system hon
- Pa lwybrau archwilio sydd ar waith i gofnodi gweithredoedd defnyddiwr/gweinyddwr
- P'un a oes angen unrhyw hyfforddiant gorfodol ar ddefnyddiwr/gweinyddwr, cynefino neu loywi a sut y caiff hyn ei orfodi
- Sut y bydd i hawliau mynediad ar gyfer defnyddwyr a gweinyddwyr (gan gynnwys dileu hawliau) yn cael eu cychwyn, eu cymhwyso a'u hawdurdodi

5.3 Systemau Data Cyfredol – Bydd yr holl systemau TG sy'n dal Gwybodaeth Gyfrinachol y Brifysgol neu setiau data critigol Heb fod yn Gyfrinachol yn dogfennu Manyleb Diogelwch Gwybodaeth gyda gweithdrefnau ategol wedi'u dogfennu o fewn amserlen a gymeradwywyd gan yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth.

5.4 Bydd yr Awdurdod Dylunio Technegol TG yn adolygu Manylebau Diogelwch Gwybodaeth pob system TG bob dwy flynedd. Bydd ffactorau sbardun ychwanegol ar gyfer yr adolygiadau hyn yn cynnwys asesiadau risg asedau gwybodaeth blynyddol ac unrhyw newidiadau pensaernïol arfaethedig i systemau sydd eisoes yn bodoli y cyfeirir atynt yn yr Awdurdod Dylunio Technegol.

5.5 Trosglwyddo data newydd rhwng systemau – pryd bynnag y nodwyd angen i ail-ddefnyddio data o system sydd eisoes yn bodoli dylid dilyn y Weithdrefn Awdurdodi Ail-ddefnyddio Data

(gweler Atodiad A) er mwyn sicrhau yr hysbysir/ymgynghorir â rhanddeiliaid allweddol a bod awdurdod priodol ar waith sy'n ymwneud â llifau data a diogelwch yr asedau wrth drosglwyddo ac unrhyw system newydd a'r amgylchedd.

Bydd y Weithdrefn yn ei gwneud yn ofynnol datblygu Manyleb System Diogelwch Gwybodaeth a bod yr Awdurdod Dylunio Technegol yn adolygu'r Fanyleb Diogelwch Gwybodaeth fel rhan o'r weithdrefn.

5.6 5.6 Systemau TG Newydd – Bydd yr holl Systemau TG newydd sy'n dal Gwybodaeth Gyfrinachol y Brifysgol neu setiau data critigol Heb Fod yn Gyfrinachol gyda Manyleb Diogelwch Gwybodaeth a ddogfennwyd yn rhan o'u datblygiad. Rhaid adolygu Manylebau Diogelwch Gwybodaeth ar gyfer systemau TG newydd o'r fath gan yr Awdurdod Dylunio Technegol fel rhan o'r broses gymeradwyo. Bydd Manyleb Diogelwch Gwybodaeth cymeradwy yn ofynnol i unrhyw giât rhyddhau TG ac ni fydd unrhyw system wybodaeth yn mynd 'yn fyw' heb Fanyleb Diogelwch Gwybodaeth cymeradwy ar waith.

## **6 Cyfrifoldebau**

6.1 Bydd Perchnogion y System (Busnes) yn gyfrifol am sicrhau bod y Manylebau Systemau Diogelwch Gwybodaeth yn gyflawn, yn gyfredol ac yn gywir. Bydd Perchnogion y System (Busnes), ar y cyd gyda'r Perchennog System (Technegol) a'r Awdurdod Dylunio Technegol, yn adolygu'r Manylebau pryd bynnag y ceir newid arfaethedig i'r system a allai effeithio ar y mesurau rheoli a ddefnyddiwyd (gan gynnwys eu hangenrheidrwydd) ac yn dilyn yr ymarfer asesu risg ased gwybodaeth blynyddol i benderfynu a oes angen newidiadau *cysylltiedig* i'r Fanyleb.

6.2 Bydd yr Uwch-berchennog System (Busnes) perthnasol yn cymeradwyo'r Manylebau Diogelwch Gwybodaeth ar gyfer y systemau pwrrpasol sy'n dal y data hwnnw, gan ddefnyddio dull asesu risg o weithredu, wedi'i lywio gan ganfyddiadau'r Awdurdod Dylunio Technegol a lefel dderbyniol o risg y Brifysgol. Bydd yr Uwch-berchennog System (Busnes) perthnasol hefyd yn cymeradwyo unrhyw newidiadau neu welliannau i Fanyleb yn yr un modd.

6.5 Bydd yr Awdurdod Dylunio Technegol yn gyfrifol am adolygu'r Manylebau System Diogelwch Gwybodaeth yn unol â'r gofynion polisi a nodir uchod, ac am ddarparu cyngor i Berchnogion System ac Uwch-berchnogion System am unrhyw feysydd o wendid a/neu risgiau sy'n aros.

6.6 Bydd yr Uwch-berchennog System (Technegol) yn sicrhau y cedwir cofrestr o'r holl Fanylebau System Diogelwch Gwybodaeth TG cymeradwy a bod gan yr holl systemau TG newydd Fanyleb Diogelwch Gwybodaeth gymeradwy cyn 'mynd yn fyw'.

6.7 Bydd y Grŵp Goruchwylio Rheoli Data a Gwybodaeth yn ystyried manylebau System Diogelwch Gwybodaeth y cyfeirir ato gan un neu fwy uwch o Uwch-berchnogion System (Busnes neu Dechnegol), gan yr Awdurdod Dylunio Technegol neu gan yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth c yn cynghori'r Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth ar feysydd o wendid a risgiau oedd yn aros.

6.8 Bydd gan yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth yr awdurdod i gymeradwyo gwyradau oddi wrth y lefel a argymhellir o fesurau rheoli diogelwch gwybodaeth.

## 7 Cydymffurfio

Dylid adrodd ar achosion o beidio â chydymffurfio â'r polisi hwn i'r Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth a gellir eu trin fel mater disgyblu dan bolisiau disgyblu staff y Brifysgol.

## 8 Diffiniadau

**Gwybodaeth y Brifysgol:** unrhyw wybodaeth (mewn unrhyw fformat) mae'r Brifysgol yn ei chael, ei chreu, ei haddasu neu'n ei storio mewn cysylltiad â'i dibenion busnes ei hun. Mae gwybodaeth o'r fath yn cael ei chategoreiddio fel Cyfrinachol (Cyfrinachol lawn neu Gyfrinachol) a Heb fod yn Gyfrinachol. Cewch hyd i gategorïau Dosbarthu Gwybodaeth Prifysgol yn: <http://sites.cardiff.ac.uk/isf/handling/>

**Uwch-berchennog System (Busnes)** Mae Uwch-berchnogion System (Busnes) yn atebol ar gyfer diffinio'r anghenion busnes i'w bodloni gan y system ac ar gyfer rheoli'r system yn barhaus o fewn y cyd-destun polisi i ddiwallu'r anghenion hynny. Mae'r Uwch-berchennog System (Busnes) yn cymryd rôl lywodraethu, gan sicrhau bod y system yn cael ei rheoli i ddiwallu anghenion y busnes ac yn cefnogi gofynion ansawdd data.

**Perchennog System (Busnes):** Mae Perchnogion System (Busnes) yn gyfrifol i'r Uwch-berchennog System (Busnes) ar gyfer diffinio'r gofynion busnes i'w darparu gan y system ac ar gyfer mesurau rheoli penodol i'r system i sicrhau ansawdd y data. Cyflawnir y rôl hon gan staff a enwebwyd gan yr Uwch-berchennog System (Busnes). Mae'r rhain yn staff sydd â chyfrifoldebau rheoli o ran y prosesau mae'r system yn eu cyflawni neu'n eu cefnogi. Mae rôl y Perchennog System (Busnes) yn cynnwys deall pa wybodaeth a ddelir, beth a ychwanegir a beth sy'n cael ei symud, sut y symudir gwybodaeth, pwy sydd â mynediad a pham.

**Uwch-berchennog Systemau (Technegol):** Mae'r Uwch-berchennog Systemau (Technegol) yn atebol ar gyfer diffinio a sicrhau safonau technegol, mesurau rheoli a gweithrediadau sydd eu hangen i gynnal y data ar systemau TG, yn unol â gofynion busnes. Cyflawnir y rôl hon gan y Prif Swyddog Gwybodaeth.

**Perchennog System (Technegol):** Mae Perchnogion System (Technegol) yn gyfrifol i'r Uwch-berchennog Systemau (Technegol) ar gyfer cynnal y data a gweithredu mesurau rheoli technegol ar systemau TG, yn unol â gofynion busnes. Bydd y rôl hon yn canolbwyntio ar ddulliau casglu data'r system, prosesau'r system a diogelwch y system. Cyflawnir y rôl hon gan staff a enwebwyd gan yr Uwch-berchennog Systemau (Technegol), fel arfer staff Gwasanaethau TG a/neu gontractwyr.

**Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth:** Bydd yr Is-Ganghellor yn dynodi'r Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth ar gyfer amcanion diogelwch gwybodaeth cyffredinol y Brifysgol. Rhaid i'r Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth sicrhau bod amcanion diogelwch gwybodaeth y Brifysgol yn cyd-fynd â chyfeiriad strategol y Brifysgol a bydd yn berchen ar y risgiau diogelwch gwybodaeth sy'n gysylltiedig â hyn.

**Awdurdod Dylunio Technegol:** Mae'r Awdurdod Dylunio Technegol yn grŵp o fewn Gwasanaethau TG a Rheoli Portffolio sy'n gyfrifol am arwain, gwerthuso a cymeradwyo cynlluniau pensaernïol lefel-uchel a nodi adnoddau technegol priodol i gludo'r rhain ymlaen at ddyluniadau y gellir eu rhoi ar waith, yn ogystal â chytuno a gorfodi safonau technegol a strategaethau, a chymeradwyo unrhyw eithriadau i'r safonau technegol hynny.